






# Yr Holocost a Chymru

## Aero Zipp Fasteners yn Ystâd Fasnachu Trefforest

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio Symudedd Pobl (CASP) ym Mhrfysgol Aberystwyth








Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)

Yr Holocost a Chymru

# Aero Zipp Fasteners yn Ystâd Fasnachu Trefforest

Adnodd 1 o 2 yw hwn ar destun Ystâd Fasnachu Trefforest a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r adnodd arall. Mae'r adnoddau yn edrych ar straeon ffoaduriaid Iddewig a ddechreuodd fusnesau yn Ystad Fasnachu Trefforest, ger Pontypridd.

Mae'r adnodd hwn yn astudiaeth achos o Aero Zipp Fasteners, cwmni a sefydlwyd gan Joachim Koppel, diwydiannwr Iddewig-Almaenig.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am Ystâd Fasnachu Trefforest a ble i ddarganfod mwy
- Diffiniad defnyddiol: 'seinwedd'
- Bywgraffiad byr o Joachim Koppel
- Map o Ystâd Fasnachu Trefforest
- Awyrlun o Ystâd Fasnachu Trefforest
- Darn o erthygl papur newydd y *Pontypridd Observer* ar Aero Zipp Fasteners
- Hysbyseb ar gyfer Aero Zipp Fasteners

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), 'Diffinio'r Holocost', cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost.

## Gwybodaeth gefndir am Ystâd Fasnachu Trefforest

Roedd Ystâd Fasnachu Trefforest, a enwyd yn Ystâd Ddiwydiannol Trefforest yn ddiweddarach, yn Ardal Arbennig a sefydlwyd fel rhan o Ddeddf Ardaloedd Arbennig 1934. Roedd y ddeddf yn targedu ardaloedd â lefelau uchel o ddiweithdra, megis de Cymru, Glannau'r Tyne a'r Alban, gan gynnig symbyliad i fusnesau ymsefydlu yno.

Prin oedd diddordeb dynion busnes o Brydain yn yr ardaloedd yma ond pan ddechreuodd y Natsïaid gipio busnesau Iddewig yn 1938, manteisiodd sawl ffoadur Iddewig ar y trwyddedau preswylio hawdd eu caffael a'r rhent sylweddol is er mwyn sefydlu ffatrïoedd. Yn achos ffoaduriaid oedd yn dianc o'r Cyfandir, roedd cael gofod ffatri ar rent yn hanfodol. Fel arfer byddent yn dianc heb fawr ddim asedau ac roedd y ffatrïoedd yma'n rhoi cyfle iddynt sefydlu busnes yn hynod sydyn. Rhwng mis Ebrill 1935 a mis Gorffennaf 1938, sefydlwyd 187 o fusnesau gan ffoaduriaid ym Mhrydain ond erbyn mis Awst 1939, roedd y nifer wedi cynyddu i bron 500, gyda thros 300 ohonynt wedi eu lleoli yn yr Ardaloedd Arbennig.

Erbyn mis Mai 1940, roedd 55 cwmni a sefydlwyd gan ffoaduriaid Iddewig yn gweithredu allan o Drefforest ger Pontypridd, gan gyflogi tua 1,800 o bobl. Aeth rhai ffoaduriaid i fusnes gyda'i gilydd ar ôl cwrdd drwy Gyngor Diwydiannol Cenedlaethol Cymru a Sir Fynwy. Arweiniodd y fath gwmnïau at leihau'r ddibyniaeth ar fewnforion, yn ogystal â sefydlu technoleg newydd ym Mhrydain mewn rhai achosion. 'Roedd y cwmnïau hyn yn cynhyrchu amrywiaeth eang o nwyddau.  Teganau, nwyddau trydanol, cemegion, papurau sigarét, siocled, plastigau – hyd yn oed penseli "amhosibl eu torri" – gwnaethpwyd y cyfan yn Nhrefforest. Nid oedd llawer o'r nwyddau wedi cael eu cynhyrchu erioed o'r blaen yng Nghymru neu Brydain. Yn sydyn 'roedd 'na

lawer o gyfleoedd gwaith newydd yng Nghymru ar gyfer gweithwyr oedd wedi colli eu gwaith yn y pyllau glo, merched oedd yn edrych am waith y tu allan i wasanaeth domestig, a phobl ifanc yn eu harddegau yn gadael yr ysgol.

Cafodd rhai ffatrïoedd, megis Aero Zipp Fasteners, cwmni cynhyrchu sipiau a sefydlwyd gan y dyn busnes o Ferlin, Joachim Koppel, eu cymryd drosodd i helpu'r ymdrech ryfel. Datblygwyd y ffatri hon i greu cydrannau ar gyfer awyrennau i'r Weinyddiaeth Adeiladu Awyrennau, a dechreuodd cwmni'r Iddew o Awstria Otto Brill, sef Livia Leather Goods Ltd, gynhyrchu gorchuddion seddi lledr ar gyfer awyrennau'r Llu Awyr Brenhinol (RAF). Roedd Julius a Moritz Mendle yn cyflogi dwsinau o fenywod yn eu ffatri hwy, Mendle Bros., yn gwneud gogls plastig ar gyfer y RAF yn ystod y rhyfel, a nwyddau ymolchi wedi hynny.

Sefydlwyd tua 1,000 o gwmnïau gan ffoaduriaid ym Mhrydain o'r 1930au tan ddiwedd y 1940au. Roedd y busnesau yma'n cyflogi 250,000 o bobl, yn sylweddol uwch na'r nifer o ffoaduriaid a ddaeth i'r wlad. Yn ôl y *Jewish Chronicle* yn 1963, roedd y mwyafrif o fusnesau a sefydlwyd gan ffoaduriaid yn Nhrefforest cyn y rhyfel yn dal yn yr ardal ddegawdau'n ddiweddarach. Ymgartrefodd llawer o'r diwydianwyr o ffoaduriaid hyn yn ne Cymru, gan ddod yn arweinwyr cymdeithasol a diwylliannol pwysig o fewn eu cymunedau ac mae teuluoedd llawer ohonynt yn dal i fyw yn yr ardal heddiw.

I gael rhagor o wybodaeth am Ystâd Fasnachu Trefforest, gweler:

- https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/bywyd-ffoaduriaid-yng-nghymru/ystad-fasnachu-trefforest/
- https://webapps.rctcbc.gov.uk/heritagetrail/default_w.html

Llyfrau: Anthony Glaser, ‘Jewish Refugees and Jewish Refugee Industries’, tt 177-201 of Ursula Henriques (ed.), The Jews of South Wales (University of Wales Press, 1993); Andrea Hammel, Finding Refuge: Stories of the men, women and children who fled to Wales to escape the Nazis (Honno, 2022), tt 72-99; Herbert Loebl, ‘Refugee Industrialists in the Special Areas of Britain’, tt 219-49 of Gerhard Hirschfeld (ed.), Exile in Great Britain: Refugees from Hitler’s Germany (Berg, 1984)

## Beth yw ‘seinwedd’?

Mae seinwedd yn cyfeirio at synau gellir eu clywed mewn ardal neu gyd-destun penodol. Mae gan bob lleoliad seinwedd, a gan ddibynnu ar ble rydych chi, gallan nhw gynnwys synau naturiol ac artiffisial. Maen nhw’n unigryw ac yn newid o hyd: byddai seinwedd coetir yn wahanol iawn i ddinas, er enghraifft. Gallwn geisio ail-greu seinluniau trwy waith celf neu berfformiadau trwy gymysgu synau gwahanol i greu teimlad atmosfferig amgylchedd neu le.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/soundscape

## Ffynhonnell hanesyddol 1: Bywgraffiad byr o Joachim Koppel

Ganwyd Joachim Koppel yn Berlin ym 1892. Yn 1913, pan oedd yn 21 oed, daeth yn gynrychiolydd ar gyfer busnes gweithgynhyrchu plwm, ac yn y blynyddoedd canlynol bu'n gweithio mewn amryw o gwmnïau gwneud metelau. Erbyn 1920, roedd yn gyfarwyddwr busnes masnach fetel yn ardal Tiergarten Berlin. Datblygodd ef a'i bartner busnes batentau ar gyfer cynhyrchu zipiau a arweiniodd at Joachim yn sicrhau buddiannau busnes yng Ngwlad Pwyl, Rwmania, Awstria, Gwlad Belg, Ffrainc, yr Eidal, Tsiecoslofacia a'r DU.


Fel dyn busnes Iddewig blaenllaw, roedd Joachim mewn perygl o gael ei erlid ar ôl i'r Natsïaid ddod i rym ym mis Ionawr 1933. Dim ond deufis yn ddiweddarach, roedd wedi ffoi i Brag. Cyn hir dilynodd gweddill ei deulu. Yn 1938 penderfynodd symud i Gymru, ond gan fod ei ddinasyddiaeth Almaenig wedi ei dirymu, prynodd ddogfennau a phasbortau dinasyddiaeth o lysgenhadaeth Costa Rica ym Mhrag. Roedd mab Joachim, Kurt, wedi symud i Lundain ym 1936, a pherswadiodd ei dad i ddod i'r DU yn hytrach na Gwlad Belg. Er bod y rhan fwyaf o deulu Joachim wedi gallu dianc i'r DU, ni lwyddodd Paula Koppel (ei wraig gyntaf a mam ei ddau blentyn hynaf) i ddianc o Dsiecoslofacia. Cafodd ei hanfon i geto Theresienstadt a'i llofruddio yng ngwersyll marwolaeth Treblinka.

Sefydlodd Joachim Aero Zipp Fasteners Ltd gyda'i frawd Leo ar Ystad Fasnachu Trefforest ym 1938. Yn ystod y rhyfel, atafaelwyd y ffatri i gynhyrchu nwyddau ar gyfer y rhyfel: zipiau ar gyfer gwisgoedd yr Awyrlu, teclynnau manwl a mesuryddion ar gyfer ffatrïoedd arfau, a rhannau ar gyfer reifflau, anadlyddion a chyrff parasiwtiau. Roedd y ffatri hefyd yn argraffu cylchgrawn gwaith

*Punch and Die*, ac roedd ganddi gymdeithas ddrama amatur lwyddiannus, band dawns, a chlwb peirianneg arbrofol.  Erbyn 1947, roedd y ffatri yn cyflogi 450 o bobl, a threblwyd maint y gweithle ar ôl codi estyniad i'r ffatri. Ond fu Joachim ddim byw i weld hyn; bu farw yn 1946 a daeth Kurt yn rheolwr gyfarwyddwr y cwmni. Erbyn 1965, roedd Aero Zipp yn creu traean o holl allforion zipiau Prydain.

# Ffynhonnell hanesyddol 2: Map o Ystâd Fasnachu Trefforest

1. Labin Co.; Arthur Weil Ltd.; Gustav Holzer Ltd.
2. Aero Zipp Fasteners
3. B. Prince & Co.; E.M. Manufacturing
4. Blossom Ltd.; Burlington Gloves Ltd.; General Music Strings Ltd.; Lionite Chemicals; Nova Oil & Solvent Co.
5. Burry Son & Co.; Mechanical Swiss Embroidery Co.; Mendle Bros. Ltd.; Micalectric Ltd.; Polya Leather Gloves
6. Cutrilin Ltd.; Perma Products
7. Elco (Treforest) Ltd.; J. Engl Ltd
8. Embee Abrasives Co.
9. Finetex Manufacturing (J. Loewenstern), H. Dixon & Son Western Brush
10. General Paper & Box Mfg. Ltd.
11. H. Stainer & Co.
12. Jacob Beatus Ltd.; Phoenix Straps (Grunberger & Co) Ltd.
13. Lion Leather Ltd.
14. Metal Alloys (S. Wales) Ltd.
15. Metal Products (Treforest) Ltd.
16. O.P. Chocolate Ltd.
17. Pearl Varnish Co. Ltd.
18. Rosedale
19. Steinburg Ltd.
20. Treforest Chemical Co.
21. Treforest Chrome Leather
22. Treforest Silk Printers Ltd.
23. Trehawk/Hawk Ltd.
24. Unbreakable Pencils & Chalks Ltd.
25. Western Board Mills Ltd.




Source: © Dr Tiffany Beebe
Link: https://www.casgliadywerin.cymru/items/2114306

## Ffynhonnell hanesyddol 3: Awyrlun o Ystâd Fasnachu Trefforest, 1938-9



Awdur delwedd: Aerofilms Ltd.
Ffynhonnell delwedd: Casgliad y Werin Cymru (Trwydded Archif Greadigol)
Dolen: https://www.casgliadywerin.cymru/items/28626

<u>Ffynhonnell hanesyddol 4: Rhan o erthygl papur newydd y Pontypridd Observer ar Aero Zipp Fasteners, 1968</u>

[…]

Tynnodd Mr K.B. Koppel (cadeirydd a rheolwr gyfarwyddwr Aero Zipp Fasteners Ltd.) sylw at y ffaith bod "Aero" wedi dod i Drefforest union ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Roedd yn cael ei galw'n ardal ddirwasgedig ar y pryd. Wrth edrych yn ôl ar y dyddiau gwael hynny gallai rhywun ond rhyfeddu at y newidiadau a oedd wedi digwydd.


Dywedodd Mr Koppel ei fod yn dal i gofio'r strydoedd digalon yn nhrefi a phentrefi'r cymoedd, gyda dynion a phobl ifanc yn loetran ar gorneli strydoedd heb swyddi, heb obaith am y dyfodol a heb ddyfodol pendant o gwbl mewn gwirionedd.

[…]

Dywedodd Mr Koppel ei fod yn gobeithio nad oedd yn bod yn ddiymhongar wrth awgrymu bod ei gwmni wedi gwneud cyfraniad bach i'r datblygiad hwn. "Mae wedi dod â chynhyrchion newydd, sgiliau newydd, a thechnegau newydd i'r ardal, ac roedd hyn yn golygu, reit o'r dechrau, bod yn rhaid rhoi pwyslais ar hyfforddi personél," meddai.

Ffynhonnell: 'Wales must be promoted as the land of opportunity', *Pontypridd Observer*, 5 Rhagfyr 1968, t. 13. Ar-lein trwy British Newspaper Archive
Dolen:
https://www.britishnewspaperarchive.co.uk/viewer/bl/0003895/19681205/013/0013 (angen tanysgrifiad)

# Ffynhonnell hanesyddol 5: Hysbyseb ar gyfer Aero Zipp Fasteners, 1969




Delwedd: Jewish History Association of South Wales/Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (JHASW/CHIDC)
https://www.casgliadywerin.cymru/items/1777191 [Ail ddelwedd yr eitem].